








# Ysgol Gymraeg Pontardawe

*Datblygu pob dawn ar daith trwy'r iaith*

## Rhagair gan y pennaeth

Mae'n newyddion gwych bod eich plentyn yn dechrau yn ein hysgol fendigedig. Diolch am ddewis ni!

**Dwyieithrwydd**

Croeso i Ysgol Gymraeg Pontardawe, rwyf wrth fy modd yn dweud wrthych am ein hymrwymiad i addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg ein disgyblion. Mae gennym ni lawer i'w gynnig yma ym Mhontardawe a byddwn yn eich annog i ymweld â ni a chael gwir deimlad o'r ysgol. Rwy'n argyhoeddedig y byddwch chi'n ei garu cymaint â mi!

**Hanes ac enw da**

Mae gan yr ysgol hon enw da a thraddodiad o ragoriaeth ac rydym ni - y staff a'r llywodraethwyr presennol - yn ceisio parhau â'r traddodiad hwn. Ymfalchïwn yn safon uchel cyflawniad yr ysgol a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigir.

**Amgylchedd diogel a chynhwysol**

Anelwn at ddatblygu'r plentyn cyflawn a chreu awyrgylch ddiogel, hapus a Chymreig, gan sicrhau bod ein diwylliant yn cael ei ddiogelu a'i ddatblygu ar gyfer y dyfodol. Mae gennym bolisi drws agored, a hyderwn y byddwch chi, fel rhieni a gwarcheidwaid, yn defnyddio'r cyfle hwn i ddod i'n hadnabod fel aelodau o staff; ac ymddiried ynom a dangos diddordeb byw yn addysg eich plentyn a'r gweithgareddau a ddarperir gan yr ysgol.

**Balchder tuag at ein hiaith**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod pob aelod o deulu ein hysgol yn derbyn yr addysg orau mewn awyrgylch cartrefol a diogel. Anelwn at feithrin hunanddisgyblaeth, ymrwymiad, parch a balchder yn ein hiaith a'n hetifeddiaeth.

**Staff ymroddedig**

Rwyf hefyd yn falch iawn o'n staff eithriadol o brofiadol ac ymroddedig, sy'n sicrhau bod ein holl blant yn cael eu cefnogi'n dda i gyflawni eu gwir botensial, ac yn gweithio'n galed gyda theuluoedd i oresgyn unrhyw rwystrau i ddysgu.

**Gofal Bugeiliol**

Mae ein gofal bugeiliol yn eithriadol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn cael ei gefnogi y tu fewn a thu allan i'r ysgol. Mae lles disgyblion yn bwysig iawn i ni.

**Partneriaeth rhieni**

Rhan bwysig iawn arall o'n hysgol yw chi, y rhiant! Mae perthynas cryf a phartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol yn hanfodol. Fel y gwelwch, wrth ddarllen y straeon rhieni a disgyblion o fewn y prosbectws hwn, rydych chi a'ch plentyn yn bwysig iawn i ni. Rydym yn hyrwyddo'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r rhiant ac yn gweithio'n galed iawn i'ch cynnwys chi ym mhob cam o amser eich plentyn yma…a chynyddu mwynhad eich plentyn o ddysgu.

**Cysylltwch â ni**

Rwy'n gobeithio bod ein prosbectws yn rhoi cipolwg a dealltwriaeth i chi o'n gwerthoedd craidd. Os hoffech glywed mwy am yr hyn y gallwn ei gynnig i'ch plentyn, cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth neu apwyntiad i gwrdd â mi. Rydym yn croesawu ymweliadau ac wrth ein bodd yn dangos ein hysgol 'ar waith'. Ffoniwch 01792 862136 neu e-bostiwch yggpontardawe@npt.school.









# Mae Iewan a Gracie wedi ffynnu yn naws ddiwylliannol gyfoethog Ysgol Gymraeg Pontardawe



## Mae Bethan a Richard yn byw gyda'u plant, Iewan, 13 oed, a Gracie, 10 oed, yn Alltwen.

**Cymry Cymraeg**

Mae Bethan a Richard wedi bod wrth eu bodd gyda'r holl gyfleoedd a gynigiwyd i'w plant yn Ysgol Gymraeg Pontardawe a pha mor gyflym y daethant yn rhugl yn y Gymraeg. Dywed Bethan: "Mae'r plant yn derbyn addysg gyflawn, yn dysgu popeth sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion Saesneg, ond mae'r profiad yn cael ei gyfoethogi iddyn nhw oherwydd eu bod yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg."

**Llwyddiant cerddorol**

Mae Bethan a Richard yn falch bod Iewan a Gracie wedi mwynhau bywyd cerddorol cyfoethog yn yr ysgol ac wedi cael profiad o ymarfer a pherfformio mewn cyngherddau. Dywed Bethan: "Dechreuodd Gracie ddysgu'r ffidil ym Mlwyddyn Dau ac mae bellach wedi cyrraedd Gradd Tri. Eleni bu'n cystadlu yn yr unawd ffidil yn rownd derfynol Eisteddfod yr Urdd yng Ngogledd Cymru yn erbyn plant o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Gwnaeth y Dirprwy Bennaeth y daith i'w gweld yn perfformio, dyna pa mor ymroddedig yw'r staff. Roedd Gracie i'w gweld yn gwbl naturiol ar y llwyfan, er ei fod ar y teledu ac o flaen cynulleidfa, oherwydd y profiad y mae wedi'i gael yn perfformio yn yr ysgol."

**Mantais am oes**

Dewisodd Bethan a Richard Ysgol Gymraeg Pontardawe i Iewan oherwydd eu bod eisiau i'w plant gael y cyfle i ddysgu Cymraeg mor gynnar yn eu bywydau â phosib. "Rydym yn gwybod y bydd yn eu helpu i fod yn siaradwyr rhyugl yn y Gymraeg pan fyddant yn hŷn, gan roi cyfleoedd addysgol a gyrfa ehangach iddynt. Mae'n llawer haws i blant o gefndiroedd Saesneg eu hiaith ddysgu Cymraeg pan maen nhw'n ifanc, yn hytrach pan fyddant yn oedolion."

**Mwynhau'r diwylliant**

Mwynhaodd Iewan yr ysgol o'r eiliad y dechreuodd. Dywed Bethan: "Ymdrwythodd yn yr iaith Gymraeg a'i diwylliant a buan iawn y dechreuodd siarad Cymraeg. Mae popeth yn yr ysgol yn cael ei wneud yn Gymraeg ar wahân i wersi Saesneg a dydyn nhw ddim yn dechrau dysgu Saesneg tan Blwyddyn Tri. Mae'r iaith Gymraeg a threftadaeth wedi eu gwreiddio yn holl fywyd yr ysgol."

**Sgiliau am oes**

Un o uchafbwyntiau bywyd ysgol Iewan oedd mynd i ganolfan lleol yn rheolaidd i ddysgu sgiliau byw yn y gwyllt. Dywed Bethan: "Nid dim ond dysgu sut i adeiladu ffensys neu wneud tanau'n ddiogel oedd hyn, ond dysgu i fod yn annibynnol, yn wydn, ac i gydweithio. Erbyn i Iewan orffen Blwyddyn Chwech, roedd yn cyflawni'n dda yn academaidd ac yn gwbl barod ar gyfer yr ysgol uwchradd."

**Dysgu trwy chwarae**

Pan ddechreuodd Gracie yn y Meithrin, roedd hi'n ffynnu o'r eiliad yr ymunodd â'r ysgol. "Fe ddysgodd hi Gymraeg yn gyflym, er mai dim ond ychydig eiriau roedd hi'n ei wybod cyn dechrau. Roedd hi'n mwynhau gweithio'n greadigol a gwneud pethau, yn amrywio o greu cardiau a phastai yn y gegin fwd, a gwnaeth bontio esmwyth i'r Derbyn a'r blynyddoedd olynol. O Flwyddyn Tri, mae plant yn cael y cyfle i fynd ar ymweliadau preswyl, a mwynhaodd fy mhlant ar bob un. Roedd Gracie yn hoffi mynd i amryw o glybiau ar ôl ysgol ac mae wedi cael llawer o gyfleoedd ym maes chwaraeon hefyd. Mae hi wedi cystadlu mewn digwyddiadau gymnasteg ac yn chwarae hoci i'r ysgol. Rwy'n falch bod Gracie wedi'i herio i gyflawni ei llawn botensial ac mae hefyd wedi gwneud llawer o gynnydd academaidd," meddai Bethan.

**Annog annibyniaeth**

Mae Ysgol Gymraeg Pontardawe hefyd yn datblygu ethos mentergarwch ymhlith y plant. "Maen nhw'n eu hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i wneud pethau a'u gwerthu, neu godi arian o weithgareddau, gan elwa o'r profiad o drefnu a thrin yr arian. Dyma enghraifft o ddefnyddio gweithgareddau dysgu pwrpasol i helpu plant i ddysgu pynciau craidd, fel Mathemateg," meddai Bethan.

**Cyfathrebu dwyieithog**

"Nid yw dod o gartref Saesneg wedi bod yn rhwystr i'n plant, sydd wedi gallu cael mynediad at bopeth mae'r ysgol yn ei gynnig. Mae'r holl gyfathrebiad rhwng yr ysgol a'r cartref yn ddwyieithog ac os byddaf byth yn cysylltu â'r ysgol, gallaf naill ai e-bostio, neu ffonio'r swyddfa, lle mae'r staff bob amser yn groesawgar a chymwynasgar iawn."

**Mae plant yn dweud**

**Meddai Gracie:** "Rwyf wrth fy modd yn mynd i Ysgol Gymraeg Pontardawe oherwydd mae'r athrawon yn neis iawn ac yn fy helpu i fod y gorau y gallaf fod. Mae dysgu yn hwyl iawn yn fy ysgol ac rydw i wedi dysgu siarad Cymraeg yn ogystal â Saesneg. Mae gallu siarad dwy iaith yn wych!"

# Diwrnod ysgol:

Mae ein hysgol yn dechrau am 8.45yb ac yn gorffen am 3.15yp. Mae plant Meithrin yn gorffen am 2.50yp, cyfnod Sylfaen am 3.00yh a ChA2 am 3.15yp

## Clybiau Gofal

**Clwb Brecwast**

Rydym yn cynnig Clwb Brecwast dyddiol yn yr ysgol sy'n dechrau am 7.55yb. Mae hwn am ddim i bob disgybl am 30 munud.

**Allgyrsiol**

Rydym yn cynnal ein Clwb Ar Ôl Ysgol ein hunain ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Anfonir amserlen ar gyfer hyn ar ddechrau pob tymor.

## Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol wisg ysgol swyddogol, ac mae'n ddewisol. Credwn ei fod yn rhoi ymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol i'r plant, felly anogir disgyblion i'w gwisgo. Cedwir ein gwisg mor syml ac ymarferol â phosibl gyda siwmperi glas tywyll, cardigans, a chrysau polo. Gellir prynu eitemau gwisg ysgol gan dri cwmni lleol: Sportec yng Nghastell-nedd, Pethau Plant yn Ystradgynlais a Picton Sports yn Llanelli. Gellir archebu gwisgoedd oddi ar eu gwefannau.

## Prydau ysgol a byrbrydau

Anelwn at sicrhau bod pob disgybl yn cael pryd iach, maethlon. Gellir darparu ar gyfer llysieuwyr ac unrhyw geisiadau diet arbennig. Mae yna ddewis prif brydau poeth gan gynnwys opsiwn llysieuol ar gael bob dydd ynghyd â detholiad o lysiau, saladau tymhorol, opsiwn pasta a bara gwenith cyflawn. Mae yna hefyd brif bwdin dyddiol gydag opsiwn ychwanegol o ddewis powlen ffrwythau. Mae dewis dyddiol o laeth oer neu ddŵr ar gael.

**Prydau ysgol am ddim**

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion cymwys sy'n mynychu'r ysgol yn llawn amser. Gall disgyblion hefyd fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael budd-daliadau penodol yn ymwneud ag incwm. O Fedi bydd plant Derbyn, blwyddyn 1 a 2 yn medru derbyn cino am ddim.

**Amser egwyl ac yfed yn iach**

O fis Medi 2022 ymlaen, anogir disgyblion bwyta byrbrydau iach, sy'n golygu dim creision, melysion a diodydd sy'n llawn siwgr.











# Mae Nia a Morgan wedi ffynnu yn academaidd a bellach wedi dod yn deirieithog diolch i staff cymwynasgar Ysgol Gymraeg Pontardawe



## Mae Huw a Celine yn byw ychydig y tu allan i Bontardawe gyda'u plant, Nia, 11 oed, a Morgan, 8 oed.

**Penderfyniad da**

Mae Huw a Celine yn fodlon iawn ar y ffordd y mae eu plant wedi blodeuo yn Ysgol Gymraeg Pontardawe, gan gadarnhau eu bod yn iawn i'w hanfon i ysgol Gymraeg. Meddai Huw: "Rydym yn meddwl bod yr ysgol wedi gwneud Nia a Morgan yn fwy wybodus fel pobl. Maen nhw'n wahanol iawn i'w gilydd, ond mae'r ddau wedi gwneud yn dda yn academaidd ac yn mwynhau bywyd yr ysgol."

**Sgiliau Cymraeg**

Symudodd Huw a Celine nôl i ardal Pontardawe er mwyn i Nia gael mynychu ysgol Gymraeg. Meddai Huw: "Ffrengig yw fy ngwraig, felly mae ein plant yn deirieithog. Mae Celine yn siarad Ffrangeg gyda nhw, dwi'n siarad Cymraeg gyda nhw, ac maen nhw'n deall Saesneg hefyd. Roedden ni eisiau i Nia gael addysg Gymraeg a Phontardawe oedd y dewis amlwg. Roedd fy mam yn arfer dysgu yno ac roeddwn i'n arfer mynychu'r ysgol. Roeddwn i'n adnabod llawer o'r athrawon ac yn hyderus y byddent yn derbyn addysg dda yno, felly symudom yn ôl i'r ardal ychydig cyn i Nia ddechrau yn y Meithrin.

**Cynyddodd hyder**

"Ar ôl i Nia ddechrau yn y meithrin fe ymgartrefodd yn dda. Roedd hi'n blentyn swil ond fe wnaeth yr athrawon ei helpu i fagu hyder. Pan ddechreuodd hi, Ffrangeg oedd ei hiaith gryfaf, ond trwy'r ysgol, y Gymraeg oedd y brif iaith. Er ei bod hi'n ddeallus, roedd hi'n swil ac angen ychydig o hyder a chyflawnodd yr ysgol hynny. Maen nhw'n mynd â'r plant allan yn y gymuned yn aml ac yn mynd i Ganolfan Glan yr Afon, canolfan addysg awyr agored, unwaith yr wythnos, a oedd yn gwthio ei ffiniau. Mae hi bellach wedi dod yn greadigol iawn ac yn mwynhau darlunio ac ysgrifennu, yn bennaf yn Gymraeg. Mae hi wedi elwa o'r ffaith nad yw'r dysgu i gyd yn cael ei wneud yn yr ystafell ddosbarth," meddai Huw.

**Ysgogi athrawon**

Aeth Nia i Stiwdios Harry Potter yn ddiweddar ac er ei bod yn ansicr ynglŷn â mynd ymlaen llaw, roedd hi wrth ei bodd ac yn llawer mwy hyderus nawr. "Mae hi wedi gwthio ei hun i gyflawni mwy yn yr ysgol ac wedi cydnabod lle mae angen iddi wella. Mae'r athrawon wedi rhoi canmoliaeth iddi, a oedd yn ei gwneud yn awyddus i wneud yn dda. Dywedasant fod ei llawysgrifen yn un o'r goreuon yn y dosbarth a'i fod wedi ei hysgogi'n fawr. Mae hi'n gwybod ei chryfderau a'i gwendidau ei hun ac mae wedi mynd ati i wella lle mae angen iddi wneud hynny. Derbyniodd adroddiad da, sydd wedi ein gwneud ni'n fwy hyderus am symud i Ysgol Gyfun Ystalyfera," meddai Huw.

**Gwaith heriol**

"Mae Morgan yn wahanol iawn i'w chwaer ac roedd yn llawer mwy hyderus pan ddechreuodd yn yr ysgol. Fe wnaethon nhw sylwi ar ei botensial yn gyflym a'i herio gyda gwaith mwy datblygedig. Roedd eisoes yn gallu darllen pan ddechreuodd, felly gwnaethant yn siŵr eu bod yn cadw ei ddiddordeb. Mae wedi gwneud yn arbennig o dda hyd yn hyn. Mae'n mwynhau'r holl weithgareddau ac mae ganddo ddiddordeb mawr yn yr hyn y mae'n ei ddysgu. Mae'n hoff o hanes lleol ac yn ddiweddar mae wedi bod yn dysgu am byllau glo ac wedi mwynhau clywed straeon gan fy nhad am ei hen gwythiennau Morgan, a oedd yn löwr. Mae hefyd wedi cael cyfle i roi cynnig ar bêl-droed a rygbi ac mae newydd wneud ei hyfedredd beicio. Ni all ein ffrindiau a'n teulu o Ffrainc gredu'r holl gyfleoedd a gaiff plant yn Ysgol Gymraeg Pontardawe a'r gweithgareddau y maent yn eu cynnal, y rhan fwyaf ohonynt yn dysgu amdanynt trwy gyfrif Trydar gwych yr ysgol," meddai Huw.

**Staff cefnogol**

"Rydym yn meddwl bod y staff yn wych a gallaf ddweud yn wirioneddol eu bod yn llwyddo i gefnogi pob plentyn, oherwydd mae ein plant mor wahanol. Mae'r ddau yn dda yn academaidd, ond mewn ffyrdd gwahanol iawn. Mae hyn yn profi nad yw Pontardawe yn ysgol lle disgwylir i un maint ffitio pawb, ond yn hytrach yn ysgol a fydd yn gweithio ar gyfer gwahanol fathau o blant, gan gynnwys y rhai sydd â blaenoriaethau iaith gwahanol gartref. Mae iaith yn bwysig iawn i ni fel teulu ac mae'r ysgol wastad wedi bod yn gefnogol ac yn galonogol i'r ffordd mae ein plant yn cyfathrebu yn y tair iaith."

**Mae plant yn dweud**

**Meddai Nia:** "Mae'r gweithgareddau'n anhygoel, yn enwedig Stiwdios Harry Potter, ac mae'r athrawon i gyd yn neis ac yn gyfeillgar. Rydw i wedi gallu gwneud a rhoi cynnig ar gymaint o bethau gwahanol, sydd wedi bod yn wych!"

**Meddai Morgan:** "Rwyf wrth fy modd yn gwneud yr holl wahanol fathau o waith, yn dysgu am bethau lleol ac yn gweld fy holl ffrindiau."

# Cwricwlwm cyffrous i bob dysgwr

## Profiadau addysgiadol

Ymdrechir i ddarparu ystod eang o brofiadau addysgol i gwrdd ag anghenion unigol pob plentyn, a rhoddir pwyslais ar roi profiadau uniongyrchol i'r plant fel ysgogiad i'r broses ddysgu.

## Dyfodol Llwyddiannus

Mae newidiadau mawr ar y gweill ym myd addysg Cymru yn sgil adolygiad yr Athro Donaldson o gwricwlwm addysg Cymru a'i adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'.

**'Ysgol Arloesol y Cwricwlwm'**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi'i hadnabod fel 'Ysgol Arloesol y Cwricwlwm'. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cydweithio ag ysgolion arloesol eraill ledled Cymru – a gyda swyddogion y Llywodraeth – i ddatblygu'r cwricwlwm Cymreig newydd. Mae wedi bod yn gyfnod cyffrous ond prysur ac wedi caniatáu i ni chwarae ein rhan yn natblygiad y cwricwlwm; sicrhau bod ein disgyblion yn elwa o ddulliau a strategaethau addysgu arloesol yn gynnar.

**Gweledigaeth y Cwricwlwm**

'Trysorau Tawe' yw enw ein cwricwlwm newydd. Mae'n hyrwyddo ymagwedd gydlynol, flaengar ac ystyrlon ar draws yr ysgol, ac mae iddo bedwar diben, sy'n galluogi pob plentyn i:

1. gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain, yn chwilio am heriau a'u mwynhau ac sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
2. cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau, meddwl yn greadigol a bod yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
3. wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol ac sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
4. gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

## Cerddoriaeth

Mae athrawon cerdd peripatetig yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol i ddarparu gwersi llinynnol, telyn, chwythbrennau a phres, a gall rhieni ddewis i'w plant dderbyn y gwersi hyn. Mae'r ysgol yn talu am y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gerddorol, ond gofynnir i rieni gyfrannu £120 y flwyddyn tuag at gostau megis atgyweirio offerynnau, cerddoriaeth, a phrynu offerynnau.

**Cyfleoedd cerddorol cyffrous**

Rydym yn manteisio ar bob cyfle i'n plant gymryd rhan mewn perfformio cerddoriaeth. Ymhlith yr enghreifftiau mae cystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd.











# Cwricwlwm cyfoethog: teithiau ac ymwelwyr, addysg gorfforol a chlybiau

Rydym yn gwneud i ddysgu ddod yn fyw trwy wahodd gwesteion i'r ysgol neu drwy fynd ar deithiau maes a gwibdeithiau sy'n gysylltiedig â'n dysgu.

## Gwibdeithiau

Mae enghreifftiau o'n teithiau yn cynnwys:

- Stiwdios Harry Potter Warner Bros.
- Sain Ffagan.
- Canolfan Ofod Genedlaethol.
- Dan yr Ogof
- Llyn Llech Owain
- Parc Margam

**Cyrsiau Preswyl**

O Flwyddyn 3, mae gan ddisgyblion yr opsiwn o fynd ar deithiau preswyl. Mae enghreifftiau yn cynnwys Tŷ Tregoyd, Llangrannog, Glanllyn a Chanolfan yr Urdd Caerdydd.

## Ymwelwyr

Mae gennym gymysgedd diddorol o ymwelwyr sy'n rhoi profiadau bywyd go iawn i'n dysgwyr a all eu helpu i gysylltu'r hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ysgol, â'r byd o'u cwmpas a datblygu eu hyder. Mae ymwelwyr diweddar wedi cynnwys:

- Meddyg Lleol
- Deintydd
- Gwasanaeth tân
- PCSO
- Gwyddoniaeth Gwyllt
- Hanesydd Lleol
- Artistiaid
- Beirdd

## Chwaraeon ac Addysg Gorfforol

Mae gan chwaraeon broffil uchel yma, ac mae gennym Athro Chwaraeon a Hyfforddwr Chwaraeon cymwysedig. Rydym yn falch o'r gwahanol chwaraeon rydym yn eu cynnig i'n plant, gan gynnwys tennis, pêl-droed, rygbi, criced, rownderi, hoci, a nofio.

## Clybiau

Teimlwn yn gryf fel ysgol fod gweithgareddau allgyrsiol yn rhan bwysig o addysg a datblygiad plentyn. Rydym yn cynnig ystod eang o weithgareddau ar ôl ysgol i blant yr ysgol o flwyddyn 1-6 a gyflwynir gan athrawon profiadol. Rhoddir cryn bwys ar gynnwys disgyblion mewn gweithgareddau o natur ddiwylliannol, adloniadol a chwaraeon, gan gynnwys:

- Clwb y Barli.
- Clybiau athletau, criced, pêl-rwyd a rygbi (ar ôl ysgol).
- Timau chwaraeon amrywiol - rygbi, pêl-rwyd, pêl-droed, athletau, rownderi a chriced.
- Cyfranogiad yn yr Eisteddfod.
- Ymarfer band.
- Garddio, gemau bwrdd a darllen.
- Ymarfer côr.



# Derbyniadau a chymryd rhan

## Trefn derbyniadau

**Derbyn**

Y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd a gynhelir. Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi derbyn yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl), a cheir manylion amdano yn y llawlyfr rhieni. Gallwch hefyd gael gwybodaeth ar-lein trwy fynd i wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Bydd yr ysgol yn dilyn canllawiau'r A.Ll.A. ar gyfer derbyn disgyblion ag anableddau. Ein nod yw cyfle cyfartal i bawb.

**Y Broses ymgeisio**

- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau mis Medi yw Tachwedd y flwyddyn flaenorol.
- Gall ceisiadau fod ar-lein neu drwy ffurflen gais bapur Castell-nedd Port Talbot.
- Byddwch yn cael gwybod am leoliad eich plentyn erbyn y mis Ebrill canlynol.

**Manylion cyswllt Tîm Derbyn i Ysgolion Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

- Cyfeiriad: Swyddfa Derbyn i Ysgolion, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ.
- Ffôn: 01639 763580.
- E-bost: admissions@npt.gov.uk.
- Gwefan: www.npt.gov.uk/1347.

## Dewch yn llu

**Cynorthwywyr gwirfoddol**

Rydym bob amser yn croesawu gwirfoddolwyr o'n hysgol a'r gymuned ehangach i helpu gyda gweithgareddau megis ymweliadau ysgol neu gefnogi plant yn y dosbarth ayb. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli yn yr ysgol, siaradwch ag Athro Dosbarth eich plentyn neu swyddfa'r ysgol am fwy o wybodaeth.

**CRaFf**

Mae ein CRhFf yn grŵp o rieni a staff sy'n trefnu digwyddiadau ysgol cyffrous i godi arian ar gyfer pethau 'ychwanegol' yn yr ysgol a darparu cyfleoedd i rieni ddod at ei gilydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy amdanom neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Llywodraethwyr**

Cawn ein cefnogi gan Gorff Llywodraethu gweithgar a thrylwyr. Mae llywodraethwyr yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ac yn ymweld â'r ysgol i adolygu dysgu, monitro cynnydd, a sicrhau bod gan yr ysgol systemau rheoli effeithiol a chadarn ar waith. Gallwch gysylltu â'r Llywodraethwyr trwy ein swyddfa ysgol. Mae swyddi gwag ar gyfer Rhiant Lywodraethwyr yn cael eu hysbysebu wrth iddynt godi.







# Welcome to Ysgol Gymraeg Pontardawe

## Foreword: Mr Martin Evans, Headteacher, says...

It's great news that your child is starting at our wonderful school. Thank you for selecting us!

**Bilingual**

As the Head teacher of Ysgol Gymraeg Pontardawe, I am thrilled to tell you about our commitment to Bilingual and Welsh medium education of our pupils. We've got lots to offer here at Pontardawe and I'd encourage you to visit us and get a real feel for the school. I'm convinced that you will love it as much as I do!

**A sound reputation**

This school has a sound reputation and a tradition of excellence and we - the current staff and governors - seek to continue this tradition. We take pride in the school's high standard of achievement and the wide range of extracurricular activities offered.

**Creating a safe and happy environment**

We aim to develop the whole child and to create a safe, happy and Welsh environment, ensuring that our culture is safeguarded and developed for future years. We have an open-door policy, and we trust that you, as parents and guardians, will use this opportunity of getting to know us as staff members; and to trust us and show an active interest in your child's education and the activities provided by the school.

**Taking pride in our language**

We are committed to ensuring that every member of our school family receives the best education in a homely and safe environment. We aim to nurture self-discipline, commitment, respect and pride in our language and our inheritance.

**Dedicated staff**

I am also very proud of our exceptionally experienced and dedicated staff, who ensure that all our children are well supported to achieve their true potential, and work hard with families to overcome any barriers to learning.

**Pastoral care**

Our pastoral care is exceptional, ensuring all children are kept safe and are supported both inside and outside school. Pupil wellbeing is very important to us.

**Parent partnership**

Another very important part of our school is you, the parent! A strong bond and partnership between the home and school is essential. As you will see, by reading the parent and pupil stories within this prospectus, you and your child are very important to us. We champion the link between school and parent and work very hard to involve you in every step of your child's time here…and increase your child's enjoyment of learning.

**Get in touch**

I hope that our prospectus gives you an insight and understanding of our core values. If you wish to hear more about what we can offer your child, please contact us for more information or an appointment to meet me. We welcome visits and love to show our school 'in action'. Telephone on 01792 862136 or email yggpontardawe@npt.school.







# School day: settling in

Our school opens at 8.45am and finishes at 3.15pm.

## Wraparound clubs

**Breakfast Club**

We offer a daily Breakfast Club in school that starts at 7.55am. It is free to all pupils for 30 minutes.

**After School Club**

We run our own After School Club on Tuesdays and Thursdays. A timetable for this is sent out at the beginning of each term.

## Uniform

There is an official school uniform, the wearing of which is optional. We believe that it gives the children a sense of belonging to the school community, therefore pupils are encouraged to wear it. Our uniform is kept as simple and practical as possible with navy jumpers, cardigans, and polo shirts. Uniform items can be bought from three local companies: Sportec in Neath and Picton Sports Llanelli. Uniforms can be ordered from their websites.

## School meals and snacks

We aim to ensure that all pupils are provided with a healthy, nutritious meal. Vegetarians and any special diet requests can be catered for. There is a hot main meal choice including a vegetarian option available daily plus a selection of vegetables, seasonal salads, a pasta option and wholemeal bread. There is also a daily main pudding with an additional option of fruit bowl choice. A daily selection of chilled milk or water is available.

**Free school meals**

Free school meals are available to eligible pupils who attend school full-time. Pupils can also qualify for free school meals if their families receive certain income related benefits. As of September 2022 Reception children, year 1 and 2 will be able to receive a free lunch.

**Break-time and healthy drinks**

As of September 2022, pupils are encouraged to eat healthy snacks, which means no crisps, sweets and fizzy drinks.











# Iewan and Gracie have both flourished in the culturally rich atmosphere of Ysgol Gymraeg Pontardawe



## Bethan and Richard live with their children, Iewan, aged 13, and Gracie, aged 10, in Alltwen.

**Proud Welsh speakers**

Bethan and Richard have been delighted with all the opportunities their children have been offered at Ysgol Gymraeg Pontardawe and how quickly they became fluent in Welsh. Bethan says: "The children receive an all-round education, learning everything that is taught in English-speaking schools, but the experience is enriched for them because they are taught through the medium Welsh."

**Music success**

Bethan and Richard are pleased Iewan and Gracie have both enjoyed a rich, musical life at the school and experienced rehearsing and performing in concerts. Bethan says: "Gracie started learning the violin in Year Two and has now reached Grade Three. This year she competed in the violin solo at the Urdd Eisteddfod final in North Wales against children from across Wales and beyond. The Deputy Head teacher made the journey to see her perform, that's how dedicated the staff are. Gracie appeared totally unfazed on the stage, even though it was televised and in front of an audience, because of the experience she has had performing at school."

**Advantage for life**

Bethan and Richard chose Ysgol Gymraeg Pontardawe for Iewan because they wanted their children to have the opportunity to learn Welsh as early in their lives as possible. "We know it will help them to be fluent Welsh speakers when they are older, giving them wider educational and career opportunities. It is much easier for children from English-speaking backgrounds to learn Welsh when they are young, than it is after they have become adults."

**Soaking up culture**

Iewan enjoyed the school from the moment he started. Bethan says: "He became totally immersed in the Welsh language and culture and quickly began to speak Welsh. Everything at the school is done in Welsh apart from English lessons and they don't start learning English until Year Three. Welsh language and heritage are embedded in the whole life of the school."

**Skills for life**

One of the highlights of Iewan's school life was regularly going to a centre to learn bushcraft skills. Bethan says: "This was not just learning how to build fences or make fires safely, but learning to be independent, resilient, and to collaborate. By the time Iewan finished Year Six, he was achieving well academically and completely ready for secondary school."

**Learning through play**

When Gracie started in the nursery, she thrived from the moment she joined the school. "She learnt Welsh quickly, although she knew only a few words before she started. She enjoyed working creatively and making things, ranging from cards to mud pies, and she made smooth transitions into Reception and the successive years. From Year Three, children have the opportunity to go on residential trips, which both my children enjoyed. Gracie liked going to a variety of after-school clubs and has had lots of sporting opportunities. She has competed in gymnastic events and plays hockey for the school. I am pleased Gracie has been challenged to achieve to her maximum potential and has also made a lot of academic progress," Bethan says.

**Encouraging independence**

Ysgol Gymraeg Pontardawe also develop the spirit of enterprise among the children. "They encourage them to be independent learners and to make things and sell them, or raise money from activities, gaining from the experience of organising and handling the money. This is an example of using purposeful learning activities to help children learn core subjects, such as Maths," Bethan says.

**Bilingual communications**

"Coming from an English language home hasn't been a barrier for our children, who have been able to access everything the school offer. All the communications between school and home are bilingual and if I ever contact the school, I can either email, or ring the office, where the staff are always very welcoming and helpful."

**Children say**

**Gracie says:** "I love going to Ysgol Gymraeg Pontardawe because the teachers are really nice and help me to be the best that I can be. Learning is really fun at my school and I have learnt to speak Welsh as well as English. Being able to speak two languages is great!"

# An exciting curriculum for all leaners

## Educational experiences

We endeavour to provide a wide range of educational experiences to meet the individual needs of every child, and emphasis is placed on giving children direct experiences as stimuli to the learning process.

## Successful futures

Major changes are planned in Welsh education arising from Professor Donaldson's review of the Welsh education curriculum and his 'Successful Futures' report.

**'Curriculum Pioneer School'**

Over the past few years, the school has been identified as a 'Curriculum Pioneer School'. This means that we have collaborated with other innovative schools across Wales – and with Government officials - to develop the new Welsh curriculum. It has been an exciting but busy time and has permitted us to play our part in curriculum development; ensuring that our pupils benefit from innovative teaching methods and strategies at an early stage.

**YG Pontardawe Curriculum Vision**

'Trysorau Tawe'' is the name of our new curriculum. It promotes a coherent, progressive and meaningful approach across the school, and has four purposes, enabling each child to:

1. Set high standards for themselves and seek out and enjoy challenges, becoming lifelong learners.
2. Apply their knowledge and skills to generate ideas, think creatively and be ready to play a full part in life and work.
3. Be knowledgeable about their culture, community, society and world - now, and in the past - and be ready to be citizens of Wales and the world.
4. Know how to find the information and support needed to stay safe, healthy and ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

## Music

Peripatetic music teachers visit the school weekly to provide string, harp, woodwind and brass tuition, and parents can opt for their children to receive these lessons. The school pays for most of the music provision, but parents are asked to contribute £120 a year towards costs such as instrument repairs, music, and purchase of instruments.

**Exciting music opportunities**

We take every opportunity for our children to become involved in performing music. Examples include the National Eisteddfod and Urdd competitions.











# Nia and Morgan have thrived academically and have now become trilingual thanks to the helpful staff at Ysgol Gymraeg Pontardawe



## Huw and Celine live just outside Pontardawe with their children, Nia, aged 11, and Morgan, aged 8.

**Good decision**

Huw and Celine are highly satisfied with the way their children have blossomed at Ysgol Gymraeg Pontardawe, confirming they were right to send them to a Welsh-speaking school. Huw says: "We think the school has made Nia and Morgan more rounded as people. They are very different from each other, but have both done well academically and enjoy the life of the school."

**Welsh language skills**

Huw and Celine moved back to the Pontardawe area so Nia could attend a Welsh language school. Huw says: "My wife is French, so our children are trilingual. Celine speaks French to them, I speak Welsh to them, and they understand English as well. We wanted Nia to have a Welsh-speaking education and Pontardawe was the obvious choice. My mother used to teach there and I used to attend the school. I knew a lot of the teachers and was confident they would receive a good education there, so we moved back to the area just before Nia began at nursery.

**Confidence boosted**

"After Nia started in the nursery she settled well and enjoyed it. She was a shy child but the teachers helped her gain confidence. When she first started, French was her strongest language, but through school, Welsh became the dominant language. Although she was intelligent, she was shy and needed coaxing and the school achieved that. They take the children out in the community a lot and go to Riverside Centre, an outdoor education centre, once a week, which pushed her boundaries. She has now become very creative and enjoys drawing and writing, mostly in Welsh. She has benefited from the fact that not all the learning is done in the classroom," Huw says.

**Motivating teachers**

Nia recently went to Harry Potter Studios and although she was unsure about going beforehand, she loved it and is much more confident now. "She has pushed herself to achieve more at school and recognised where she needs to improve. The teachers have given her praise, which made her keen to do well. They said her handwriting was one of the best in the class and it really motivated her. She knows her own strengths and weaknesses and has set out to improve where she needs to. She received a good report, which has made us more confident about her moving to Ysgol Gyfun Ystalyfera," Huw says.

**Challenging work**

"Morgan is very different from his sister and was much more confident when he started school. They spotted his potential quickly and challenged him with more advanced work. He could already read when he started so they made sure they kept him interested. He has done exceptionally well so far. He enjoys all the activities and is very interested in what he is learning. He likes local history and has recently been learning about coal mines and has enjoyed hearing stories from my dad about Morgan's great uncle, who was a miner. He has also been given the chance to try football and rugby and has just done his cycling proficiency. Our friends and family from France can't believe all the opportunities children get at Ysgol Gymraeg Pontardawe and the activities they go on, most of which they learn about through the school's brilliant Twitter account," Huw says.

**Supportive staff**

"We think the staff are fantastic and I can truly say that they manage to support all children, because our children are so different. They are both academically good, but in very different ways. This proves that Pontardawe is not a school where one size is expected to fit all, but a school that will work for different types of children, including those with different language priorities at home. Language is very important to us as a family and the school have always been supportive and encouraging of the way our children communicate in the three languages."

**Children say**

**Nia says:** "The activities are amazing, especially Harry Potter Studios, and all the teachers are nice and friendly. I've been able to do and try so many different things, which has been brilliant!"

**Morgan says:** "I love doing all the different types of work, learning about local things and seeing all my friends."

# Enriched curriculum:
trips and visitors, P.E and clubs

We make learning come alive by inviting guests into school or by going on field trips and outings that link with our learning.

## Trips

Examples of our trips include:

- Warner Bros Harry Potter Studios.
- St Fagan.
- National Space Centre.
- Dan yr Ogof
- Llyn Llech Owain
- Margam Park

**Residentials**

From Year 3, pupils have the option of going on residential trips. Examples include Tregoyd House, Llangrannog, Glanllyn and the Cardiff Urdd Centre.

## Visitors

We have an interesting mix of visitors provide our learners with real-life experiences that can help them relate what they learn at school, to the world around them and develop their confidence. Recent visitors have included:

- Local Doctor
- Dentist
- Fire service
- PCSO
- Mad Science
- Local Historian
- Artists
- Poets

## Sport and P.E.

Sport has a high profile here, and we have a qualified Sports Teacher and Sports Coach. We are proud of the different sports we offer our children, including tennis, football, rugby, cricket, rounders, hockey, and swimming.

## Clubs

We feel strongly as a school that extracurricular activities are an important part of a child's education and development. We offer a wide range of after-school activities to children in the junior department delivered by experienced teachers. A great deal of importance is attached to the involvement of pupils in activities of a cultural, recreational and sporting nature, including:

- Clwb y Barli.
- Athletics, cricket, netball and rugby clubs (after school).
- Various sporting teams - rugby, netball, football, athletics, rounders and cricket.
- Eisteddfod participation.
- Band practice.
- Gardening, board games and reading.
- Choir practice.









# Admissions and getting involved

## Admissions arrangements

**Reception intake**

The County Borough Council is the Admissions Authority for all maintained Community Infant, Junior, Primary and Secondary Schools. The Governing Body has adopted the Local Education Authority's (L.E.A.) admissions policy, details of which can be found in the parent handbook. You can also access information online by going to the homepage of Neath Port Talbot County Borough Council.

The school will follow the L.E.A.'s guidance for the admission of pupils with disabilities. Our aim is equality of opportunity for all.

**Application Process**

- The closing date for September applications is November the prior year.
- Applications can be online or via Neath Port Talbot's paper application form.
- You will be notified of your child's placement by the following April.

Contact details for the Neath Port Talbot Council School Admissions Team

- Address: Schools Admissions Office, Civic Centre, Port Talbot, SA13 1PJ.
- Tel: 01639 763580.
- Email: admissions@npt.gov.uk.
- Web: www.npt.gov.uk/1347.

## Getting involved

**Voluntary helpers**

We always welcome volunteers from our school and the wider community to help with activities such as school visits or supporting children in class etc. If you are interested in volunteering at the school, please speak to your child's Class Teacher or the school office for more information.

**PTA**

Our PTA is a group of parents and staff that organise exciting school events to raise money for 'extra' things in school and provide opportunities for parents to come together. If you are interested in learning more about us or have any suggestions, please contact the school office.

**Governorship**

We are supported by an active and rigorous Governing Body. Governors attend regular meetings and visit school to review learning, monitor progress, and ensure that the school has effective and robust management systems in place. You can contact the Governors through our school office. Vacancies for Parent Governors are advertised as they arise.

# Ein Cenhadaeth, Amcanion a Gwerthoedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob aelod o'n teulu yn derbyn yr addysg orau mewn amgylchedd cartrefol a diogel. Anogir pob aelod o'r teulu i gyrraedd eu llawn botensial beth bynnag fo'u gallu trwy ddarparu cyfleoedd heriol ac estynedig fel y gall ddod yn ddysgwr annibynnol mewn cymdeithas ddwyieithog. Anelwn at feithrin hunanddisgyblaeth, ymrwymiad, parch a balchder yn ein hiaith a'n hetifeddiaeth.

**Ein Amcanion**

Ein nod yw sicrhau hynny:

- Caiff pob disgybl y cyfle i ddatblygu i'w lawn botensial yn academaidd, yn gymdeithasol, yn gorfforol, yn ysbrydol ac yn foesol.
- Mae awyrgylch hapus, cartrefol a diogel yn bodoli ac i annog pob plentyn i chwarae rhan weithredol ac amlwg ym mywyd yr ysgol.
- Mae'r disgybl yn ganolog i'r broses ddysgu a chaiff cyfraniad pob unigolyn ei barchu.
- Mae pawb yn datblygu ymdeimlad o falchder yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a'n cenedl
- Rhoddir pwyslais ar sgiliau personol megis hunanhyder, hunan-fynegiant, hunan-barch, parch at eraill a sgiliau arwain a datrys problemau trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.
- Rydym yn meithrin cysylltiadau agos â'r gymuned leol ac yn dechrau paratoi plant i ddod yn oedolion cyfrifol yn eu cymuned a dod yn ddinasyddion egwyddorol.

**Gwerthoedd**

Mae ein gwerthoedd yn ein harwain yn ein bywyd o ddydd i ddydd yn yr ysgol.

Rydym yn credu mewn:

- Gonestrwydd, cwrteisi a pharch at eraill.
- Disgwyliadau uchel gan bawb.
- Cyfle cyfartal i bawb.
- Balchder yn ein hiaith a'n diwylliant.
- Hunanddisgyblaeth, dyfalbarhad ac ymrwymiad i'n gwaith.

# Our Mission, Aims and Values

We are committed to ensuring that every member of our family receives the best education in a homely and safe environment. Every member of the family is encouraged to reach their full potential whatever their ability by providing challenging and extended opportunities so that he or she can become an independent learner in a bilingual society. We aim to nurture self-discipline, commitment, respect and pride in our language and our heritage.

**Our Aims**

We aim to ensure that:

- All pupils have the opportunity to develop to his or her full potential academically, socially, physically, spiritually and morally.
- A happy, warm and safe environment exists and to encourage every child to play an active and prominent role in school life.
- The pupil is central to the learning process and each individual's contribution is respected.
- Everyone develops a sense of pride in the Welsh language, culture and our nation
- An emphasis is placed on personal skills such as self-confidence, self-expression, self-respect, respect towards others and leadership and problem-solving skills throughout their time in school.
- We foster close links with the local community and begin preparing children to become responsible adults in their community and become global citizens.

**Values**

Our values lead us in our day-to-day life at school.

We believe in:

- Honesty, courtesy and respect for others.
- High expectations by everyone.
- Equal opportunities for all.
- Pride in our language and culture.
- Self-discipline, perseverance and commitment to our work.

**YGG Pontardawe**
Rhodfa Alltacham, Pontardawe, Abertawe, SA8 4JR

**Ffôn / Tel:** 01792 862136
**E-bost / Email:** yggpontardawe@npt.school
**Gwe / Web:** https://ygg-pontardawe.j2bloggy.com/cy/

Devised and produced by Stoneworks Education Ltd **www.stoneworkscommunications.co.uk/Education**

Copyright © 2014-2022 Stoneworks Education Ltd.